



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Cwm Glas  
Rhodfa Colwyn  
Winch Wen  
Abertawe  
SA1 7EN**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Cwm Glas

Mae Ysgol Gynradd Cwm Glas ym mhentref Winch Wen yn Abertawe. Mae 294 o ddisgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed ar y gofrestr. Mae hyn yn cynnwys 38 o ddisgyblion rhan-amser yn y meithrin ac wyth o ddisgyblion ag anawsterau dysgu ysgafn i gymedrol sy'n mynychu'r cyfleuster addysgu arbenigol. Mae 10 dosbarth un oedran, gan gynnwys y ddau ddsbarth meithrin. Yn ychwanegol, mae pedwar dosbarth oedran cymysg, gan gynnwys y cyfleuster addysgu arbenigol.

Mae tua 32% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae hyn ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 19%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan 54% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, ac mae'r mwyafrif o'r rhain yn mynychu'r cyfleuster addysgu arbenigol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae llawer o ddisgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig ac ychydig iawn o ddisgyblion yn unig sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid yw unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Dechreuodd y pennaeth presennol ar ei swydd ym mis Medi 2017. Cynhaliwyd yr arolygiad blaenorol o'r ysgol ym mis Ionawr 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.  
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

## Crynodeb

Mae disgyblion yng Nghwm Glas yn falch iawn o'u hysgol a dangosant lefelau uchel o ymgysylltiad a brwdfrydedd yn ystod gwersi a phrofiadau dysgu eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau a gwybodaeth islaw'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, maent yn gwneud cynnydd da o leiaf yn eu dysgu, yn enwedig y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae grwpiau ffocws disgyblion yn cyfrannu'n gynyddol dda at fywyd yr ysgol ac yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol yn rheolaidd i rieni a disgyblion eraill, er enghraifft ar sut i wella medrau darllen.

Mae'r pennaeth newydd a'r dirprwy bennaeth yn cyfrannu'n dda at gyfeiriad strategol yr ysgol ac yn rhannu eu gweledigaeth yn effeithiol â chymuned yr ysgol gyfan. Mae'r ethos tîm cryf, ynghyd â strategaethau pwrpasol ar gyfer gwella'r ysgol yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau disgyblion. Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd dysgu gofalgarg, cynhwysol a meithringar lle caiff pob disgybl gyfleoedd i ymgymryd yn llawn â'u dysgu. Mae gwaith yr ysgol o ran sicrhau cymorth ar gyfer disgyblion a theuluoedd sy'n agored i niwed, yn ogystal â rhieni a gofalmwyr yn gyffredinol, yn eithriadol o dda.

<b>Maes arolygu</b>	<b>Barn</b>
<b>Safonau</b>	<b>Da</b>
<b>Lles ac agweddau at ddysgu</b>	<b>Da</b>
<b>Addysgu a phrofiadau dysgu</b>	<b>Da</b>
<b>Gofal, cymorth ac arweiniad</b>	<b>Rhagorol</b>
<b>Arweinyddiaeth a rheolaeth</b>	<b>Da</b>

## **Argymhellion**

A1 Codi safonau mewn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2

A2 Datblygu gallu llywodraethwyr i herio gwaith yr ysgol yn fwy effeithiol

## **Beth sy'n digwydd nesaf**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith o ran ymgysylltu â rhieni, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Safonau: Da

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau a gwybodaeth islaw'r lefel ddisgwylledig ar gyfer eu hoedran. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, maent yn gwneud cynnydd da o leiaf yn eu dysgu, yn enwedig y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol.

Yn y cyfnod sylfaen, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu eu medrau siarad a gwrando. Mae disgyblion yn y dosbarth meithrin a derbyn yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau a chwestiynau gan oedolion. Ym Mlwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhannu eu syniadau'n dda gyda chyfoedion ac maent yn mwynhau trafod eu gwaith a'u profiadau dysgu gydag ymwelwyr, er enghraifft wrth ddisgrifio'r planedau yng nghysawd yr haul. Maent yn datblygu ystod gynyddol o eirfa ac yn cymryd eu tro yn dda yn ystod trafodaethau. Wrth ddarllen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth am seiniau llythrennau i ganfod beth yw geiriau newydd ac anghyfarwydd yn llwyddiannus. Maent yn darllen yn dda gyda rhuglder a chywirdeb cynyddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu gwerthfawr ar draws y cyfnod sylfaen. Ym Mlwyddyn 2, maent yn ysgrifennu'n addas mewn ystod addas o *genres* ac yn defnyddio atalnodi yn briodol i drefnu eu gwaith, er enghraifft wrth ysgrifennu'n estynedig i adrodd stori 'Y Feipen Enfawr' ac ysgrifennu cyfarwyddiadau ar gyfer gwneud cawl pwmpen.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynyddu eu geirfa'n briodol ac yn siarad yn fwyfwy hyderus mewn ystod o sefyllfaoedd. Maent yn parchu safbwyntiau a barn ei gilydd ac yn cyfrannu'n dda at drafodaethau grŵp a dosbarth, er enghraifft wrth drafod p'un ai ffaith neu 'newyddion ffug' ai peidio oedd glaniad cyntaf dyn ar y lleud. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 agweddau cadarnhaol at ddarllen, ac maent yn trafod eu llyfrau'n dda. Ym Mlwyddyn 6, defnyddiant eu medrau darllen yn dda wrth chwilio am wybodaeth am destunau, er enghraifft wrth ymchwilio i'w hoff blaned. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n effeithiol mewn ystod o *genres* a chyd-destunau, gan ddefnyddio ystod gynyddol o atalnodi a pharagraffau'n dda i strwythuro eu gwaith. Mae disgyblion mwy abl yn dechrau defnyddio ystod gyfyngedig o eirfa ddiddorol i gyfoethogi eu gwaith, er enghraifft wrth ddisgrifio arferion a thraddodiadau'r Eifftiaid hynafol.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o ran datblygu medrau cyfathrebu sylfaenol yn Gymraeg. Defnyddiant strwythurau brawddeg cyffredin a geirfa gyfarwydd yn briodol i ymateb i gwestiynau a dechrau sgysiau sylfaenol. Ym Mlwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu brawddegau syml amdany'n nhw eu hunain ac yn deall ystyr testun ysgrifenedig sylfaenol, er enghraifft diwrnodau'r wythnos a geiriau ac ymadroddion sy'n gysylltiedig â'u testun. Fodd bynnag, nid oes gan y rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 y gallu i ymestyn eu medrau sgysiol ymhellach ac mae eu geirfa wedi'i chyfyngu i eiriau ac ymadroddion syml. Ym Mlwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn darllen er gwybodaeth yn briodol er mwyn ateb cwestiynau ar ystod gyfyngedig o destunau. Gwnânt ddefnydd addas o fframweithiau ysgrifennu i

ysgrifennu cyfres o frawddegau gan ddefnyddio patrymau iaith a geiriau cyfarwydd, er enghraifft i ysgrifennu llythyr at sefydliad cenedlaethol i ddisgrifio eu hunain a'u hobiau.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn gynyddol dda. Mae disgyblion meithrin yn dysgu adnabod rhifau i 10 ac yn trefnu brigau mewn grwpiau yn ôl eu maint yn briodol. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn dda i adio, tynnu, lluosio a rhannu rhifau mwy. Defnyddiant eu medrau rhifedd yn fedrus mewn meysydd dysgu eraill, er enghraifft wrth ddefnyddio eu gwybodaeth am rannu i rannu hadau plannu yn briodol. Mae disgyblion mwy abl yn rhannu rhifau cyfan â gweddillion yn llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o rif. Defnyddiant eu medrau rhesymu'n dda i ddatrys ystod eang o broblemau rhifiadol ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn hyderus i gefnogi eu dysgu mewn ystod o bynciau, er enghraifft i drosi arian cyn-degoli ac arian modern fel rhan o'u gwaith ar ddogni yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ac yn eu defnyddio'n briodol i gefnogi eu dysgu mewn pynciau eraill. Yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn datblygu ystod o fedrau defnyddiol yn gynnar ac yn eu defnyddio'n effeithiol erbyn diwedd Blwyddyn 2. Er enghraifft, defnyddiant ddyfeisiau llaw yn hyderus i gofnodi eu gwaith gan ddefnyddio ffotograffau, fideos a sain. Mae bron pob un ohonynt yn lanlwytho eu gwaith yn annibynnol i'w storio ac yn rhannu hyn ag eraill. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn defnyddio codau ymateb cyflym i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol mewn gwersi fel mecanwaith ar gyfer rhannu eu gwaith. Mae bron pob un o'r disgyblion yn mewngofnodi'n annibynnol ar lwyfan dysgu Llywodraeth Cymru er mwyn cofnodi eu gwaith a manteisio ar ystod o raglenni ac offer dysgu. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio ystod addas o raglenni a chymwysiadau i wella'u gwaith; er enghraifft, defnyddiant daenlen i gofnodi canlyniadau o'u harbrawf gwyddoniaeth ar effaith ymarfer corff ar y corff dynol.

### **Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymfalchïo'n fawr yn eu hysgol ac yn cyfarch oedolion a'u cyfoedion yn hyderus a pharchus. Maent yn eithriadol o gyfeillgar ac yn awyddus i rannu eu gwaith a'u llwyddiannau ag ymwelwyr. Mae bron pob un o'r disgyblion yn hoffi dod i'r ysgol ac yn ymddwyn yn dda iawn ym mhob agwedd ar eu bywyd ysgol. Ceir perthnasoedd gweithio cryf rhwng disgyblion a staff, sy'n seiliedig ar barch y naill at y llall. Mae disgyblion yn gwranddo'n ofalus ar yr hyn y mae eu hathrawon a'u cyfoedion yn ei ddweud er mwyn ymateb yn briodol. Mae bron pob un ohonynt yn teimlo'n ddiogel, yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn cael gofal da. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o bwy y gallant ofyn am gymorth â gwaith neu unrhyw faterion eraill a allai godi. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos caredigrwydd a pharch at ei gilydd yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan yn ystod amser chwarae ac amser cinio. Maent yn deall bod angen aros yn ddiogel, gan gynnwys ar-lein, ac maent yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw eu cyfrineiriau yn breifat er mwyn diogelu eu hunain.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gweithio'n ddiwyd mewn gwersi a dangosant lefelau cryf o ymgysylltu a medrau cydweithredol. Maent yn ymdawelu i weithio'n gyflym ac yn gweithio'n bwrpasol wrth iddynt ymgymryd â thasgau yn unigol, mewn parau neu mewn grwpiau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio ar y tasgau hyn am gyfnodau estynedig ac maent yn datblygu'r gallu i ddysgu'n annibynnol gyda hyder cynyddol. Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn defnyddio neges 'Ein Llais, Ein Dewis' i ddewis gweithgaredd heriol addas. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn datblygu mwy o annibyniaeth pan fyddant yn defnyddio arddangosfeydd meysydd dysgu i gyfrannu'n briodol at yr hyn yr hoffent ei ddysgu yn eu gwaith thematig. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod yn gynyddol wydn wrth wynebu heriau newydd trwy fabwysiadu ymagwedd gadarnhaol at eu dysgu a meithrin hunan-barch.

Mae grwpiau llais y disgybl yn cyfrannu'n dda at waith yr ysgol. Er enghraifft, nododd y cyngor ysgol fod angen offer chwaraeon a physt gôl i ddisgyblion eu defnyddio yn ystod amser chwarae. Buont yn gweithio'n dda gyda staff i fynd i'r afael â hyn. Mae gan bob dosbarth gynrychiolydd etholedig sy'n mynd â syniadau ar eu rhan gerbron y cyngor ysgol llawn. Mae grwpiau eraill fel y grŵp ysgol iach a'r cyfeillion maes chwarae yn cyfrannu'n dda at iechyd a lles disgyblion ar draws yr ysgol hefyd. Mae hyn yn eu galluogi hefyd i ymgymryd â chyfrifoldeb cynyddol a dysgu am bwysigrwydd gofal am ei gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd a'r angen i fwyta ac yfed yn iach. Er enghraifft, mae disgyblion hyn yn trefnu siop ffrwythau bob dydd, sy'n helpu disgyblion i ddeall bod ffrwythau a llysiau yn rhan hanfodol o ddiet iach. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn yr ystod dda o weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol i wella eu hiechyd a'u ffitrwydd, gan gynnwys rygbi, dawns a phêl-rwyd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd ac yn deall y cysylltiad agos rhwng presenoldeb da a chyrhaeddiad cryf. Mae'r ysgol wedi cyfleu'r neges hon yn effeithiol iawn i ddisgyblion a'u rhieni. Mae presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

### **Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae athrawon ar draws yr ysgol yn cynllunio'n effeithiol i ddarparu profiadau dysgu pwrpasol a chyffrous ar gyfer disgyblion. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu cynnwys yn gynyddol yn eu dysgu, yn enwedig yn y cyfnod sylfaen. Mae'r disgyblion hyn yn helpu athrawon i gynllunio profiadau dysgu cyffrous yn rheolaidd, yn seiliedig ar yr hyn y maent eisoes yn ei wybod a'r hyn y maent eisieu ei ddysgu. Mae hyn yn eu hannog i ymgymryd yn llawn â'u dysgu a herio eu hunain yn briodol. Yn ddiweddar iawn, mae athrawon cyfnod allweddol 2 wedi addasu eu dulliau cynllunio er mwyn cynllunio'n fwy effeithiol i fodloni anghenion a diddordebau'r disgyblion. Erbyn hyn, maent yn trefnu meysydd profiadau dysgu yn grwpiau ar sail model datblygiadol newydd y cwricwlwm cenedlaethol. Mae hyn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran cynllunio ac mae'n creu cyfleoedd da i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau ar draws ystod ehangach o feysydd dysgu. Nodwedd nodedig o'r dull hwn yw'r ffordd y mae athrawon erbyn hyn yn galluogi disgyblion i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu a dewis eu lefel her eu hunain ar gyfer y rhan fwyaf o brofiadau a gweithgareddau dysgu. O ganlyniad, mae disgyblion yn dod yn gynyddol hyderus yn eu gallu i roi cynnig ar heriau newydd, sy'n dechrau gwella eu deilliannau.

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae agweddau cryf yn yr addysgu ym mhob dosbarth, gydag enghreifftiau o arfer eithriadol o dda mewn lleiafrif. Mae athrawon yn y cyfnod sylfaen yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r egwyddorion o ran sut mae plant ifanc yn dysgu orau. Mae'r arferion dyddiol a'r profiadau dysgu ar draws y dosbarthiadau hyn yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau'n dda, gan gynnwys eu medrau rhyngweithio personol a chymdeithasol. Mae bron pob un o'r staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda iawn. Mae pob un o'r athrawon a'r staff cymorth yn datblygu perthnasoedd gweithio cryf gyda disgyblion, ac mae eu rhyngweithio yn adlewyrchu'r gwerth uchel y maent yn ei roi i feithrin lles disgyblion. Mae'r dull hwn yn datblygu hyder disgyblion yn llwyddiannus, ac mae'n annog disgyblion i fentro yn eu dysgu. Mae'r ysgol wedi cyflwyno strategaethau effeithiol yn ddiweddar i ddatblygu hyder a gwydnwch disgyblion trwy hyrwyddo agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r staff yn gofyn cwestiynau medrus, sy'n hyrwyddo syniadau disgyblion ac yn atgyfnerthu eu dysgu'n dda. Mae gan bron bob un o'r staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer disgyblion, ac maent yn eu hannog i herio eu hunain yn gyson a pheidio ag ofni gwneud camgymeriadau. Mae athrawon yn rhoi adborth rheolaidd a phwrpasol i ddisgyblion asesu eu perfformiad eu hunain a pherfformiad disgyblion eraill. Mae hyn yn galluogi iddynt wybod beth maent wedi'i wneud yn dda a deall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae defnyddio 'swigod meddwl' a 'thargedau'r camau nesaf' yn hynod effeithiol o ran helpu disgyblion i wella'u gwaith. Mae athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn gywir ac yn gwneud defnydd effeithiol o'u hasesiadau i lywio eu cynllunio yn y dyfodol i fodloni anghenion disgyblion unigol yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu cynllun gwaith newydd yn ddiweddar i ddatblygu medrau TGCh disgyblion yn raddol ar draws pob dosbarth, ond mae'n rhy gynnar i hyn wella deilliannau disgyblion yn sylweddol. Mae athrawon yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm, a sicrhau bod disgyblion yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn llwyddiannus. Mae'r dull newydd o gynllunio'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2 hefyd yn sicrhau bod athrawon yn cynllunio'n fwy effeithiol i gynorthwyo a herio disgyblion o bob gallu. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd da i ddysgu am eu hardal a diwylliant a threftadaeth Cymru. Mae'r 'wythnos Gymraeg' a'r 'Clwb Cymraeg' yn yr ysgol yn helpu hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i thraddodiadau yn briodol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon systematig i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion yn raddol ar draws yr ysgol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Dros gyfnod, fe wnaeth gwaith rhagorol yr ysgol i ddatblygu diwylliant o gynwysoldeb helpu i ymgorffori synnwyr o gydraddoldeb, goddefgarwch a pharch ar draws yr ysgol. Mae bron pob un o'r rhieni, y gwarcheidwaid a'r disgyblion wedi croesawu'r flaenoriaeth ysgol gyfan hon. Mae hyn yn hynod effeithiol o ran sicrhau bod gan bron bob un o'r disgyblion safonau ymddygiad da, ac agweddau cryf at ddysgu a'r ysgol yn gyffredinol. Mae rhieni a gwarcheidwaid yn gwerthfawrogi'r ystod eang o raglenni ymgysylltu â theuluoedd yn fawr, ac mae'r rhain yn rhan eithriadol o dda o waith yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae mentrau llwyddiannus iawn yn cynnwys y caffï darllen a'r



caffi mathemateg sy'n cael eu mynychu gan nifer dda, sy'n helpu rhieni a gwarcheidwaid i gynorthwyo plant â'u dysgu. Mae grwpiau amrywiol ymgysylltu â theuluoedd fel y 'Nurture Nans' Network' a'r cynllun 'Lads and Dads', yn cryfhau perthnasoedd cadarnhaol iawn rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae'r synnwyr hwn o berthyn yn allweddol o ran codi cyfraddau presenoldeb yr ysgol, sy'n cymharu'n ffafriol iawn ag ysgolion tebyg yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae hon yn gymuned hapus, ddiogel a chynhwysol, sy'n rhoi pwyslais eithriadol ar rôl a chyfraniad pob unigolyn at deulu'r ysgol. Enghraifft bwerus yw'r ymagwedd gynhwysol at greu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb mewn ystod eang o fforymau wedi'u harwain gan ddisgyblion. Er enghraifft, mae'r 'Reading Rocks', y cyngor ysgol a'r llysgenhadon ysgol iach yn cyfrannu'n effeithiol iawn at fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion yn darparu cyflwyniadau defnyddiol ar gyfer rhieni, partneriaid cymunedol a staff o ysgolion eraill ar sut i gefnogi darllen a rhifedd disgyblion gartref.

Mae systemau olrhain effeithiol yn monitro cynnydd disgyblion yn effeithlon. Mae pob un o'r disgyblion yn falch o gael "Proffiliau Un Dudalen" addysgiadol iawn ac mae'r rhain ar gael yn rhwydd fel bod pob un o'r staff yn deall yn llawn sut i gynorthwyo pob disgybl unigol. Mae "dosbarth ar dudalen" a "disgybl ar dudalen" yr ysgol yn offer cyflym, effeithiol ac addysgiadol hefyd, sy'n helpu pob un o'r staff i nodi, olrhain a monitro cynnydd disgyblion.

Ceir darpariaeth gref iawn ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol, ac mae'r cydlynedd anghenion dysgu ychwanegol yn cynorthwyo athrawon a staff cymorth yn effeithiol i deilwra darpariaeth o ansawdd uchel. Mae staff hyfforddedig yn cyflwyno ystod o raglenni ymyrraeth a chymorth buddiol i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion, yn ogystal â'u hangehnion emosiynol a lles. Er enghraifft, mae grwpiau anogaeth yr ysgol yn cael effaith ddwys ar hunan-barch a hunanhyder rhai o ddisgyblion mwyaf bregus yr ysgol trwy gymorth targedig. O ganlyniad, dangosant lefelau gwell o bresenoldeb ac ymgysylltu â bywyd yr ysgol. Mae pob un o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyfrannu'n dda at eu cynlluniau addysg unigol penodol a mesuradwy eu hunain, y maent yn eu cwblhau ochr yn ochr â staff allweddol a rhieni neu ofalwyr. Mae pob un o'r rhanddeiliaid yn adolygu'r cynlluniau hyn yn rheolaidd ac maent yn effeithiol iawn o ran gwella cyrhaeddiad a lles fel ei gilydd. O ganlyniad i'r ddarpariaeth hon sydd o ansawdd uchel, mae bron pob un o'r disgyblion targedig yn gwneud cynnydd da o leiaf yn unol â'u galluoedd a'u hanghenion.

Caiff yr holl rieni wybodaeth dda iawn am gynnydd eu plentyn trwy adroddiadau targedig unigol yn nhymor yr hydref, adolygiadau yn ystod nosweithiau rhieni ac adroddiadau addysgiadol i ddisgyblion ar ddiwedd blwyddyn. Mae ffrwd cyfryngau cymdeithasol yr ysgol yn hynod effeithiol o ran rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni a gofalwyr ac mae pob dosbarth yn trydar bob dydd.

Mae gan yr ysgol drefniadau rhagorol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach ymhlith disgyblion. Mae ystod eang o chwaraeon, gemau amser chwarae a phrofiadau allgyrsiol, gan gynnwys "Fit 'n Fun" a chlybiau dawn, yn hyrwyddo iechyd a ffitrwydd yn eithriadol o dda. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

## **Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth a benodwyd yn ddiweddar a'r dirprwy bennaeth yn gweithio'n dda gyda chymuned yr ysgol gyfan i adeiladu ymhellach ar sylfeini cryf i fodloni anghenion bron pob un o'r disgyblion. Mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol, sy'n seiliedig ar ddarparu'r deilliannau gorau posibl a sicrhau lefelau uchel o les ar gyfer pob disgybl. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn darparu cyfeiriad strategol cryf ar gyfer pob un o'r staff, sy'n sicrhau bod gan bob un ohonynt ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae hyn yn eu galluogi i weithio'n effeithiol i roi'r blaenoriaethau a amlinellir yng nghynllun datblygu'r ysgol ar waith a sicrhau gwelliannau parhaus. Er enghraifft, erbyn hyn, mae pob un o'r athrawon yn casglu a dadansoddi data gyda hyder cynyddol er mwyn monitro effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar gyrhaeddiad disgyblion. Mae'r ethos tîm cryf yn sicrhau bod staff yn gweithio'n dda iawn i ddarparu amgylchedd dysgu gofalgar, cynhwysol ac ysgogol ar gyfer disgyblion. Mae hyn wedi arwain at ymgysylltu llwyddiannus â theuluoedd, sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a safonau grwpiau o ddisgyblion, er enghraifft disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion sy'n agored i niwed.

Mae'r corff llywodraethol yn deall ac ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn briodol. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i roi cyfeiriad i waith yr ysgol a chytuno ar bolisiau perthnasol. Mae'r pennaeth yn eu hysbysu'n dda am ddatblygiadau a chanlyniadau asesiadau athrawon a phrofion cenedlaethol. Maent yn gefnogol i waith y tîm arweinyddiaeth a ffurfiwyd yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae eu rôl o ran herio'r ysgol yn drylwyr trwy brosesau hunanarfarnu uniongyrchol yn gyfyngedig.

Mae gan yr uwch dîm arweinyddiaeth ddealltwriaeth gywir o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Er enghraifft, maent wedi nodi bod angen codi safonau ar gyfer disgyblion mwy abl ac wedi cyflwyno nifer o gamau gweithredu effeithiol er mwyn mynd i'r afael â hyn. Defnyddiant ystod o weithgareddau hunanarfarnu yn dda. Mae hyn yn cynnwys athrawon yn arsylwi gwersi ei gilydd a dadansoddi data perfformiad disgyblion yn rheolaidd. Mae'r arfer hon wedi galluogi staff i rannu eu harbenigedd ar draws yr ysgol yn fwy effeithiol. Mae cynllunio gwelliant yn cysylltu'n dda â chanlyniadau hunanarfarnu, ac mae gan yr ysgol hanes da o wneud gwelliannau. Er enghraifft, mae'r canlyniadau disgwylidig mewn dysgu ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion ar ddiwedd pob cyfnod allweddol wedi cynyddu dros y tair blynedd ddiwethaf ar y cyfan.

Mae cynllun datblygu presennol yr ysgol yn cynnwys targedau clir ar gyfer gwella, camau gweithredu mesuradwy a meysydd cyfrifoldeb clir ar gyfer pob un o'r staff. Mae'r cynllun yn gryno a ffocysedig ac yn galluogi pob aelod o gymuned yr ysgol i gyfrannu'n llawn at ei roi ar waith.

Mae uwch arweinwyr yn cynorthwyo staff yn effeithiol i wella eu harfer trwy ddysgu proffesiynol. Mae hyn yn gryfder gwirioneddol yn yr ysgol. Caiff staff lawer o gyfleoedd i fynychu cyrsiau a rhannu eu harbenigedd â'i gilydd a gydag ysgolion eraill. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a chyrrhaeddiad disgyblion. Er enghraifft, mae ffocws ar wella addysgu darllen wedi arwain at welliant cyson yng nghyrrhaeddiad disgyblion, ac mae'r ysgol wedi rhannu'r arfer dda hon ag ysgolion eraill. Mae arweinwyr yn herio pob un o'r staff yn effeithiol i ddatblygu eu harbenigedd trwy dargedau rheoli perfformiad gwell, sy'n cysylltu'n gywir â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu ddynamig a hynod effeithiol lle mae pob un o'r staff yn fodolau rôl da iawn ar gyfer disgyblion.

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Cwm Glas  
Chwefror 2018

Mae'r ysgol yn defnyddio'i chyllideb ganolog yn briodol i gefnogi gwelliannau yn ansawdd y ddarpariaeth a chodi safonau. Mae arweinwyr yn defnyddio adnoddau'n effeithlon i fodloni anghenion pob un o'r disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r grant datblygu disgyblion i ddarparu cymorth gwerthfawr ar gyfer grwpiau cymwys i ddysgwyr, er enghraifft i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd a'u lles.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

<b>Rhagorol</b>	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
<b>Da</b>	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
<b>Digonol ac angen gwelliant</b>	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
<b>Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys</b>	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor, Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: [www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/04/2018